# SL(6)730 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol o Gontract) (Cymru) (Diwygio etc.) 2026

## Cefndir a Diben

Roedd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Deddf 2016) yn sefydlu contractau meddiannaeth sy'n gymwys rhwng tenant a'i landlord yng Nghymru. Mae Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol o Gontract) (Cymru) 2022 ("Rheoliadau 2022") yn rhagnodi datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol o gontract sy'n gymwys mewn perthynas â chontractau meddiannaeth.

Mae Deddf Hawliau Rhentwyr 2025 ("Deddf 2025") yn diwygio Deddf 2016 mewn perthynas â gwahaniaethu yn y farchnad rentu yng Nghymru. Yn benodol, mae'n mewnosod adran 54A (yr hawl i blant fyw mewn annedd neu ymweld â hi) ac adran 54B (yr hawl i hawlio budd-daliadau) yn Neddf 2016.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2022 i fewnosod darpariaethau yn y datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol o gontract mewn perthynas â'r hawliau a ddarperir yn adran 54A ac adran 54B o Ddeddf 2016. Maent hefyd yn darparu nad yw adran 54A o Ddeddf 2016 (yr hawl i blant fyw mewn annedd neu ymweld â hi)) yn ddarpariaeth sylfaenol sy'n gymwys i gontract safonol â chymorth.

## Gweithdrefn

Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae'r Rheoliadau drafft yn nodi adran 141(1) a 141(2) o Ddeddf 2025 ac adrannau 22(1)(b), 29(1) a 256(1) o Ddeddf 2016 fel pwerau galluogi.

Mae'n ymddangos i ni y caiff adran 22(1)(b) o Ddeddf 2016 ei defnyddio mewn perthynas â rheoliad 4 a chaiff adran 29(1) o Ddeddf 2016 ei defnyddio mewn perthynas â rheoliad 3.

Ynghyd â hyn, mae adran 256(1) o'r Ddeddf honno yn cadarnhau bod unrhyw bŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn y Ddeddf yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaeth

ddeilliadol, darpariaeth atodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed. Mae adran 141(1) a 141(2) o Ddeddf 2025 hefyd yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth sy'n ganlyniadol i Ran 2 o'r Ddeddf honno, gan gynnwys y pŵer i ddiwygio unrhyw ddeddfiad.
Er y nodwn fod Pennod 4 o Ran 1 o Ddeddf 2025 yn diwygio Deddf 2016 mewn perthynas â gwahaniaethu yn y farchnad rentu, a bod y Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth yn hynny o beth, nid yw'n glir sut mae adran 141(1) neu 141(2) yn cael eu defnyddio yn ychwanegol at bwerau Deddf 2016 a nodir, a gofynnir i Weinidogion Cymru roi eglurhad yn hyn o beth.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 2 Chwefror 2026 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.